


Gwylwch rhag y Celtiaid

(a'r rhai sy'n eu hastudio!)



Beth yw 'Celt'?

Mae'n anodd credu y gall cwestiwn o'r fath, sy'n ymddangos mor ddiniwed, greu stŵr – ond gall.

Efallai y byddai hanesydd yn dweud 'y rhai a labelwyd felly gan ffynonellau hanesyddol'. Yma, wedi'r cyfan, y tarddodd yr enw. Byddai hyn, fodd bynnag, yn cau allan y rhai na labelwyd felly gan ffynonellau hanesyddol, hyd yn oed pe baent yn rhannu'r un nodweddion.

Efallai y byddai archeolegydd yn cynnig y diffiniad canlynol: 'y rhai sy'n gyfrifol am ddiwylliannau materol Hallstatt neu La Tène'. Gallai hyn hefyd fod yn ddilys ond yn ôl pob tebyg dim ond pe bai'r bobl dan sylw hefyd wedi eu labelu fel Celtiaid gan ffynonellau hanesyddol.

Byddai ieithydd efallai yn awgrymu: 'Rhywun sydd un, neu sydd wedi, siarad iaith sy'n perthyn i gangen Celtaidd y teulu ieithyddol Indo-Ewropeaidd, naill ai'n fyw neu'n farw'.

Yn achos y modwl hwn ar y Celtiaid, bydd ein diffiniad yn ymgorffori agweddau ar bob un o'r uchod, ond yn agosaf at yr olaf, o gofio bod llawer o'r ymdrech a roddwyd i ymchwil ieithyddol yn y cyfnod modern wedi ei anelu'n fanwl at ddangos bod yr ieithoedd 'Celtaidd' modern yn perthyn i'r ieithoedd a siaradwyd gan y rhai a alwyd yn 'Celtae/Galli/Galatae' yn yr hen fyd. Mae 'Gwledydd Celtaidd' heddiw, wedi'r cyfan, wedi eu galw felly oherwydd bod iaith Geltaidd yn bodoli yno yn y cyfnod modern. Dylai profi parhad o'r gorffennol i'r presennol felly fod yn brif nod.

Gwylwch rhag y Celtiaid

(a'r rhai sy'n eu hastudio!)

- ▶ Mae Astudiaethau Celtaidd yn faes rhyngddisgyblaethol (a diddorol)
- ▶ Mae disgyblaethau cyfansoddol yn cynnwys ieithyddiaeth (hanesyddol), hanes, archeoleg, geneteg, ethnoleg, a nifer o rai eraill sy'n astudio agweddau cymdeithasol ar bobloedd Celtaidd
- ▶ Gall barnau gwahanol ar dystiolaeth sydd weithiau yn brin arwain at ddadlau ac anghytuno o fewn a rhwng disgyblaethau

Gall fod llawer o resymau pam mae ysgolheigion yn anghytuno. Gall y rhain gynnwys dod o gefndir academiaidd gyda thraddodiad gwahanol, neu ddefnyddio terminoleg sy'n mynd 'ar goll mewn cyfieithiad' neu ddod i gasgliad gwahanol wedi ei seilio ar farn personol. Gellir dod o hyd i elfennau o bob un o'r rhain mewn Astudiaethau Celtaidd i'r fath raddau bod hyd yn oed y maes ei hun yn cael ei gwestiynu. Gall haneswyr, ieithyddion ac archaeolegwyr anghytuno ar yr hyn sy'n gwneud rhywun yn 'Gelt'. Yn yr un modd gall ysgolheigion o fewn yr un ddisgyblaeth anghytuno (yn ymwybodol neu'n isymwybodol), dangos rhagfarn tuag at gasgliad penodol neu ofni y defnyddir hwnnw at ddibenion gwleidyddol. Roedd y fath ystyriaethau mor sylweddol ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf y defnyddiodd Patrick Sims-Williams y teitl 'Celtomania and Celtoscepticism' yn 1998 (*Cambrian Medieval Studies* 36, 1 – 36) mewn erthygl yn disgrifio rhai o'r safiadau mwyaf disymud.

Y prif broblemau sy'n gysylltiedig â'r Celtiaid yw'r rhain:

- Tystiolaeth brin o'r cyfnod cyn-hanesyddol neu ffynonellau clasurol i'n galluogi i adnabod pwy ddylid a phwy na ddylid eu hystyried yn Geltiaid
- Ai Celtiaid yw'r label gorau i'w ddewis beth bynnag
- Y ffaith bod y rhai a enwyd yn Geltiaid wedi diflannu bron yn llwyr o dir mawr Ewrop erbyn yr oesoedd canol cynnar (ac eithrio'r rhai a aeth i Lydaw ond a ddaeth o Brydain – ac mae hyd yn oed anghytuno ar y pwynt hwnnw mewn rhai manau!)
- Absenoldeb llwyr yr enw 'Celt' fel enw cyfoes drwy gydol yr oesoedd canol (a barhaodd am fwy na 1000 o flynyddoedd o'r 5^{ed} ganrif hyd at y 16^{eg})
- A ellir profi didoriant rhwng y rhai a alwyd yn Geltiaid yn yr hen fyd a'r rhai a elwir felly heddiw

Wrth reswm mae'n iawn i gwestiynu ansicrwydd, fodd bynnag, dylid defnyddio'r un meini prawf gyda'r Celtiaid â phawb arall, heb gymryd eu bodolaeth a'u parhad yn ganiataol ar y naill law na'u rhoi nhw o dan y microsgop i raddau mwy nag unrhyw grŵp arall ar y llaw arall.

Gwylwch rhag agendâu cudd

Mae'r canlynol i gyd wedi eu honni:

- Bu aneddiadau Eingl-Sacsonaidd yn ne Prydain yn ystod Oes yr Haearn
- Bu aneddiadau Gaeleg yn ngogledd Prydain yn ystod Oes yr Haearn
- Mae'r Llydaweg yn hanu o'r iaith Aleg

Yn aml ceisir barn academiaidd fel ffordd o gyfiawnhau amcanion gwleidyddol

Y bumed ganrif a welodd gwmp yr Ymerodraeth Rufeinig yn y gorllewin a niferoedd enfawr o bobl yn ymfudo. Yn draddodiadol, dyma'r cyfnod pan sefydlodd yr Eingl-Saeson eu haneddiadau parhaol cyntaf yn y tiroedd a fyddai'n dod yn Lloegr, a sefydlodd y Gaelfiaid eu haneddiadau parhaol cyntaf hwythau yn y tir a fyddai'n troi'n wlad y Scotti, sef yr Alban.

Mae gan y gred mai 'ni a fu yma'n gyntaf felly i ni mae'r tir hwn yn perthyn' draddodiad hir nad yw bob amser yn glodwiw, gyda grwpiau ar bob ochr yn awyddus i hawlio llain. Daw'r awgrym fod siaradwyr ieithoedd Germanaidd yn nwyrain Lloegr hyd yn oed cyn dyfodiad y Rhufeiniaid o ddehongliad o ran o lyfr Stephen Oppenheimer *'The Origins of the British'*.

Daw'r cynnig fod siaradwyr Gaeleg ym Mhrydain yn ystod Oes yr Haearn o bapur gan Ewan Campbell y gellir dod o hyd iddo yma: <http://www.electricscotland.com/history/articles/scotsirish.htm>

Cyflwynwyd y syniad bod y Llydaweg yn tarddu o'r iaith Aleg yn hytrach na'r Frythoneg gan Francois Falc'hun yn ei lyfr o 1981 *Perspectives nouvelles sur l'histoire de la langue bretonne*. Os yn wir, golygai hyn fod y Llydaweg wedi datblygu o fewn y tir sydd bellach yn Ffrainc. Byddai hyn yn plesio cenedlaetholwyr Ffrengig ond yn gwylltio cenedlaetholwyr Llydewig, sydd yn awyddus i honni nad ydynt yn Ffrancwyr.

Dylid bod yn ofalus felly wrth ddehongli gweithiau sydd yn herio digwyddiadau sefydlog. Er nad yw'r un o'r honiadau hyn y tu hwnt i derfynau posibilrwydd, maent yn tueddu credu bod pobl wedi symud i'r cyfeiriad sydd yn cyd-fynd orau â'u dadl hwythau (ond nid fel arall) neu fynnu y gellir defnyddio tystiolaeth enetig neu archeolegol i olrhain iaith benodol. Hefyd yn gyffredin yw beirniadu cred sefydlog yr honnir nad oes tystiolaeth i'w chynnal, ond i roi dadl arall yn ei lle sydd yn yr un modd heb dystiolaeth i'w chynnal. Ceir cyfeiriad at bob un uchod fel y gall myfyrwyr fynd atynt os yn awyddus i wneud hynny a phenderfynu drostynt eu hunain.

Mae'n werth ychwanegu y gall ffynonellau clasurol a hanesyddol eraill hefyd fod yn gaeth i agenda benodol neu chwarae i oriel arbennig.

Gwylwch rhag tybiaethau cyffredin

- ▶ Nid yw nodweddion hynafol yn golygu bod iaith benodol wedi ei siarad yn ei mamwlad gyfredol am fwy o amser nag y mae ieithoedd sydd â nodweddion diweddarach wedi cael eu siarad yn eu mamwledydd nhw
- ▶ Nid yw bodolaeth genynnau penodol mewn poblogaeth ddynol yn dweud wrthym ers pryd mae iaith benodol wedi ei siarad yno – ni throsglwyddir iaith drwy'r genynnau
- ▶ Nid yw bodolaeth diwylliant materol penodol mewn lleoliad penodol yn dweud wrthym pa iaith a siaradwyd yno – ni throsglwyddir iaith drwy botiau chwaith

Mewn perthynas â'r pwynt cyntaf, yn achos penodol Astudiaethau Celtaidd, nodir yn aml bod y Wyddeleg wedi cadw nodweddion hynafol a all fod wedi eu colli neu wedi eu haddasu yn y Gymraeg, dyweder. Ni ddylid tybio oherwydd hyn bod y Wyddeleg felly wedi ei siarad am gyfnod hirach yn Iwerddon nag y mae'r Gymraeg neu'r Frythoneg wedi ei siarad ym Mhrydain. Mewn llawer o achosion gellir dangos bod y gwrthwyneb yn wir. Er enghraifft, o'r ieithoedd Germanaidd Gogleddol (Llychlynaidd), yr ieithoedd byw sydd wedi ymwahanu lleiaf o'r Hen Norse yw Islandeg a Ffaröeg (o'u cymharu â Norwyeg, Swedeg a Daneg), ond gwyddys heb os y gwladychwyd yr ynysoedd hyn yn hwyrach, ac y siaredid Hen Norse ar dir mawr y Llychlyn cyn hyn. Gellid dadlau achos tebyg gyda'r ieithoedd Romawns yn achos Rwmaneg, a dderbyniodd y Lladin yn hwyrach na Gorllewin Ewrop, ond sydd yn yr un modd wedi cadw nodweddion mwy hynafol. Mae nifer o hynafiaethau hefyd wedi eu cadw yn Saesneg America a gollwyd yn Saesneg Prydain.

Ar yr ail bwynt, ceir eto nifer o enghreifftiau o newid iaith yn digwydd heb unrhyw newid cyfatebol yn y boblogaeth – proses a elwir yn ddyfudiad iaith. Daeth y Wyddeleg yn iaith leiafrifol yn Iwerddon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn newid i'r Saesneg heb fewnfudo sylweddol gan siaradwyr Saesneg o'r tu allan (er bod digon o allfudo o'r tu mewn).

Mae'r trydydd pwynt yn rhybuddio yn erbyn dadlau bod 'potiau yn gyfystyr â phobl'. Gwelir enghraifft isod o wefan yr Encyclopaedia Britannica <https://www.britannica.com/art/Celtic-literature>:

The introduction of Celtic (i.e. language) into Ireland has not been authoritatively dated, but it cannot be later than the arrival there of the first settlers of the La Tène culture in the 3rd century BC.

Dylid cofio bod y dyfyniad hwn yn dod o wyddoniadur enwog, a ddylai felly fod yn awdurdodol. Mae'n dioddef o'r gred bod 'diwylliant' grŵp yn 'gyfan sy'n cynnwys rhannau cyfansoddol', gyda'r cyfan dan sylw yn cynnwys iaith, technoleg, arferion cymdeithasol, crefydd ac yn y blaen, sy'n gweithio fel systemau cysylltiedig mewn organeb. Mae cysyniad 'diwylliannau' yn dreiddiol o hyd. Fodd bynnag, dengys golwg fras ar y byd heddiw (neu ddoe), nad yw'r elfennau hyn (yn wahanol i elfennau gwahanol organeb) mewn gwirionedd yn gysylltiedig â'i gilydd, ac y gall cymdeithas benodol

newid ei hiaith tra'n cadw ei chrefydd, neu newid ei thechnoleg tra'n cadw ei thraddodiadau (neu fel arall) ac yn y blaen. Gall ceisio datgysylltu cysyniad 'diwylliant fel organeb' fod yn waith caled, fodd bynnag, ac mae llawer o ddadleuon Astudiaethau Celtaidd yn digwydd o ganlyniad iddo. Mae'r sleidiau canlynol yn cynnig peth gwybodaeth ar y Celtiaid o safbwyntiau gwahanol hanes, iaith ac archeoleg.

Y Celtiaid

- ▶ Celtiaid Hanesyddol: y cyfeiriwyd atynt gyntaf gan ffynonellau Groegaid tua 2500 o flynyddoedd yn ôl
- ▶ Celtiaid Ieithyddol: label a roddwyd yn y ddeunawfed ganrif i siaradwyr yr hen ieithoedd Brythoneg, Gaeleg a Galeg
- ▶ Celtiaid Archeolegol: label a roddwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddiwylliannau materol Hallstatt a La Tène

Does dim amheuaeth bod pobl a alwyd yn Geltiaid wedi bodoli. Maent yn bobl a gofnodwyd yn y cofnod hanesyddol am y tro cyntaf yn y tir 'y tu ôl i Marseille' yn ne Gâl tua 2500 o flynyddoedd yn ôl. Gwnaethpwyd pob un o'r cyfeiriadau hanesyddol cyntaf atynt gan Roegiaid rhwng y chweched a'r bedwaredd ganrifoedd COG. Does dim cyfeiriadau hanesyddol at Geltiaid o gwbl cyn hyn.

O safbwynt ieithyddol, mae Celtaidd yn label a ddefnyddir heddiw i gyfeirio at ieithoedd Brythonaidd a Gaelaidd Prydain, Llydaw ac Iwerddon, ac at ieithoedd hynafol cysylltiedig Gâl, yn ogystal â rhannau o Iberia, gogledd yr Eidal ac Anatolia.

Mae Celtaidd ym maes archaeoleg yn cyfeirio at y diwylliannau materol a elwir yn Hallstatt a La Tène, y daethpwyd o hyd i'r ddau ohonynt yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Lleolir Hallstatt yn Awstria'r presennol a La Tène yn y Swistir.

Mae'r Celtiaid felly yn golygu pethau gwahanol i ysgolheigion mewn disgyblaethau gwahanol ac yn yr achosion ieithyddol ac archeolegol fe'u dewiswyd ar ôl y digwyddiad, fel label ar gyfer darganfyddiadau y daethpwyd o hyd iddynt yn y cyfnod modern.

Y Celtiaid Hanesyddol

Hecataeus o Miletus (tua.515 COG) a wnaeth y cyfeiriadau cyntaf at y Celtiaid a ble roeddent yn byw:

- Massalia:(Marseille heddiw) yng ngwlad y Ligwriaid, yn agos at wledydd lle roedd y Celtiaid yn byw
- Narbon: (Narbonne heddiw) tref farchnad y Celtiaid yn ne Gâl
- Nyrax: Noreia yn Awstria heddiw, neu Nyons yn ne Gâl?

Hecataeus o Miletus yn ei waith *Periodos ges* a wnaeth y cyfeiriad hanesyddol hysbys cyntaf at y Celtiaid (*Keltoi*) rywbryd cyn 500 COG. Sonnir am dair tref mewn cysylltiad â nhw.

Mae'n nodi bod Massalia (Marseille heddiw) wedi'i lleoli yn nhir y Ligwriaid yn agos at diroedd Celtaidd, a bod Narbo yn ganolfan fasnachol Geltaidd. Does dim dadlau ynglŷn â lleoliad y rhain. Nyrax sy wedi creu'r pen tost. Mae llawer o academyddion, wedi'i seilio ar gysylltiadau archeolegol mwy diweddar â'r Celtiaid mae'n debyg, yn credu mai Noreia, mewn ardal a fyddai heddiw yn Awstria, yw Nyrax. Ymddengys fod trigolion Nyons; fodd bynnag, yn ardal y Rhone-Alps yn ne Ffrainc, yn credu bod Hecataeus yn cyfeirio at eu tref nhw. Mae Narbonne yn 146 milltir o Nyons, ac yn 867 milltir o Graz, yn Styria, Awstria, ble mae rhai yn credu bod Nyrax wedi'i lleoli.

Y Celtiaid Hanesyddol

Dyfyniad gan Herodotus, tua. 450 COG:

- 'The Nile flows out of Libya, cutting through the middle of that country. And as I reason, calculating unknown things from known, it begins at the same distance as the Ister (the Danube). For the Ister, beginning in the land of the Celts and the city of Pyrene, flows through the middle of Europe. **The Celts live beyond the Pillars of Hercules (straits of Gibraltar) and border on the Cynetes, who are the westernmost inhabitants of Europe.** The Ister then flows through all of Europe and empties into the Euxine Sea (Black Sea) at Istria, which Milesian colonists inhabit'.

► Cyfieithiad gan: Koch, J.T. (gol). 1995, *The Celtic Heroic Age: Literary Sources for Ancient Celtic Europe and Early Ireland and Wales*, Malden, Massachusetts, Celtic Studies Publications.

Er bod Herodotus 'Tad Hanes' yn hollol anghywir o ran tarddiad y Donaw, mae lleoliad y Celtiaid – y tu hwnt i Gulfor Gibraltar ac yn ffinio ar drigolion mwyaf gorllewinol Ewrop yn ddigon manwl. Groegwr arall, Ephorus, yn y bedwaredd ganrif COG, sy'n nodi bod Celtica mor fawr ei bod yn cynnwys y rhan fwyaf o Iberia hyd at Cadiz (saif Cadiz yn agos iawn at Gulfor Gibraltar).

Mae rhai sylwebyddion yn defnyddio'r darn hwn i awgrymu bod y Celtiaid yn bresennol yn Iberia yn ogystal â ffynhonnell gywir y Donaw yn ne'r Almaen, ond gall hyn fod yn obaith ofer. Nid oedd gan Herodotus ddiddordeb yn y Celtiaid fel y cyfryw, roedd yn ceisio cymharu hyd y Donaw gyda hyd afon Nil, tasg sy'n haws o lawer os credir, yn gwbl anghywir, bod ffynhonnell y Donaw yng ngorllewin eithaf Ewrop.

Gall y dyfyniad hwn fod yn gyfrifol am y cysylltiad rhwng y Celtiaid a'r Donaw, megis lleoli Noreia yn Awstria yn lle de Gâl (gweler y sleid flaenorol).

Y Celtiaid Hanesyddol

Dyfyniad gan Iŵl Cesar, tua. 55 COG:

- ▶ *'Gallia est omnis divisa in partes tres, quarum unam incolunt Belgae, aliam Aquitani, tertiam qui ipsorum lingua Celtae, nostra Galli appellantur'.*
- ▶ *'Hi omnes lingua, institutis, legibus inter se differunt. Gallos ab Aquitanis Garumna flumen, a Belgis Matrona et Sequana dividit'.*

A chyfieithiad Saesneg:

- ▶ 'Gaul is a whole divided into three parts, one of which is inhabited by the Belgae, another by the Aquitani, and a third by a people called in their own tongue Celtae, in the Latin Galli'.
- ▶ 'All of these are different one from another in language, institutions, and laws. The Galli are separated from the Aquitani by the river Garonne, from the Belgae by the Marne and the Seine'.

▶ Cyfieithiad o: Edwards, H.J. 1986, *Caesar: The Gallic War, An English Translation*, London, Heinemann.

Mae'n debyg bod yr Aquitani, oherwydd eu lleoliad, yn Fasgiaid. Fodd bynnag mae gweddill Gâl ym meddiant dau grŵp mawr, y naill yn y de a'r llall yn y gogledd, y ddau yn cynnwys nifer o lwythau. Mae'r Celtiaid yn trigo yn y de yn unig ac yn siarad iaith wahanol i'w cymdogion gogleddol.

Diodorus Siculus, hefyd yn y ganrif gyntaf COG, sydd yn dweud wrthym:

'It is useful now to point out a distinction unknown by most. Those tribes that live inland from Massalia (Marseilles) as well as those around the Alps and on the eastern side of the Pyrenees are called Celts. But those tribes in the northern area near the ocean, those near the Hercynian mountain (probably in today's Czech republic) and those beyond as far as Scythia are called Galatae. The Romans, however, group all these tribes together as Galatae'.


(Cyfieithiad o: Koch, J.T. (gol), 1995, *The Celtic Heroic Age: Literary Sources for Ancient Celtic Europe and Early Ireland and Wales*, Malden, Massachusetts, Celtic Studies Publications).

Er gwaethaf gwahaniaeth Diodorus, nid yw'n naid fawr i gysylltu'r geiriau 'Celtae' a 'Galatae'. Os felly, ymddengys wedyn fod hyn yn gwrthddweud Cesar. Efallai mai'r cyfan sydd gennym fan hyn fodd bynnag yw achos o 'nid yr un peth ond yn debyg'.

Y Celtiaid Hanesyddol

Map o: Edwards, H.J. 1986, *Caesar: The Gallic War, An English Translation*, London, Heinemann.

► Gâl Iŵl Cesar



Mae'r daearyddwr Groegaidd, Strabo, a oedd yn ysgrifennu ychydig yn hwyrach yn y ganrif gyntaf COG, yn nodi bod y Belgae yn byw ar hyd yr arfordir rhwng y Rhein a'r Loire, mewn lleoliad tebyg i Galatae Diodorus Siculus (gweler nodiadau'r sleid flaenorol).

Mae'n werth nodi, gyda llaw, o ran Prydain ac Iwerddon, nad yw'r un ffynhonnell hanesyddol erioed wedi galw trigolion y naill ynys na'r llall yn Geltiaid.

Sut, felly, y daeth rhai o bobl yr ynysoedd hyn i gael eu galw yn Geltiaid yn y lle cyntaf?

Rhaid edrych tua'r byd ieithyddol i ddod o hyd i'r ateb i'r cwestiwn hwnnw.

Y Celtiaid Ieithyddol

- ▶ Y Frythoneg yw iaith hysbys gyntaf ynys Prydain
- ▶ Yr Oedeleg (Gaeleg) yw iaith hysbys gyntaf ynys Iwerddon
- ▶ Ni ddefnyddiwyd yr enw Celtaidd i gysylltu'r Frythoneg, yr Oedeleg ac ieithoedd hynafol Gâl tan y ddeunawfed gyntaf

Mae'r Celtiaid ieithyddol, yn wahanol i'r rhai hanesyddol, wedi eu canoli o gwmpas ieithoedd hynafol Prydain ac Iwerddon. Y Frythoneg yw iaith hysbys gynharaf ynys Prydain a'r Oedeleg yw iaith hysbys gynharaf ynys Iwerddon.

Mae'r ddwy iaith yma wedi eu rhannu yn y cyfamser yn ieithoedd modern, yn yr un ffordd, mwy neu lai, ag y rhannodd y Lladin yn ieithoedd Romawns megis Eidaleg, Sbaeneg, Rwmaneg, Ffrangeg ac yn y blaen. Trodd y Frythoneg yn Gymraeg, Cernyweg a Llydaweg, tra rhannodd yr Oedeleg wreiddiol yn Wyddeleg, Manaweg a Gaeleg yr Alban.

Ond os na ddisgrifiwyd y bobl hyn fel Celtiaid gan yr un ffynhonnell hanesyddol, o ble daeth y label hon?

Y Celtiaid Ieithyddol

- ▶ George Buchanan, yn y 16^{eg} ganrif, oedd y cyntaf i ddefnyddio'r enw 'Celtiaid' ar gyfer trigolion Prydain ac Iwerddon pan gysylltodd yr Oedeleg (ond nid y Frythoneg) â'r Aleg
- ▶ Paul-Yves Pezron ymhelaethodd ar hyn yn y ddeunawfed ganrif drwy gysylltu'r Frythoneg â'r Aleg (mae'r Frythoneg mewn gwirionedd yn agosach at yr Aleg nag yw'r Oedeleg)
- ▶ Edward Lhuyd a gysylltodd yr Aleg â'r Frythoneg a'r Oedeleg ill dwy – a'r Frythoneg a'r Oedeleg â'i gilydd
- ▶ Ymddengys nad oedd siaradwyr blaenorol yr ieithoedd Brythonaidd a Gaelaidd yn ymwybodol o unrhyw darddiad cyffredin
- ▶ Ni wnaethant gyfeirio at eu hunain fel Celtiaid (ond nid yw hyn yn golygu bod damcaniaeth y tarddiad cyffredin yn anghywir)

Defnyddiwyd yr enw Celtaidd am y tro cyntaf fel hyn yn y 16eg ganrif gan yr ysgolhaig Albanaidd George Buchanan. Fodd bynnag, fe'i defnyddiodd i gyfeirio at siaradwyr Goedeleg yn unig, gan gredu bod y Celtiaid hanesyddol wedi cyflwyno'r iaith honno i Iwerddon o dde Gâl. Roedd y Frythoneg, yn ei dyb ef, wedi dod i Brydain ar draws y sianel, yn unol â'r gwahaniaeth y soniwyd amdano yn Y Celtiaid Hanesyddol uchod.

Ar ôl Buchanan, ar ddechrau'r 18fed ganrif, fe welodd yr ysgolhaig Edward Lhuyd elfennau tebyg rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Wyddeleg. Bu'n hysbys i lawer ers cyfnod hir bod yr ieithoedd Brythonaidd wedi dod o'r un ffynhonnell, a'r ieithoedd Gaeleg yn yr un modd, ond roedd y cysylltiad rhwng y grŵp Brythoneg a'r grŵp Gaeleg yn agoriad llygad. Yn ogystal, honnodd Lhuyd fod y ddau grŵp yma hefyd yn rhannu cysylltiadau ag ieithoedd Gâl. Roedd angen enw ar y grŵp newydd hwn, ac efallai oherwydd y byddai'r Frythoneg wedi ei chysylltu â Theyrnas Unedig y cyfnod, a Gâleg yn yr un modd wedi ei chysylltu â'r wladwriaeth Ffrengig, y label Geltaidd yw'r un a sefydlwyd.

Nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod siaradwyr y Frythoneg na'r Oedeleg erioed wedi galw eu hunain yn Geltaid cyn hyn na'u bod yn ymwybodol o unrhyw darddiad cyffredin. Er bod hyn yn dangos diffyg hunaniaeth gyffredin yn ystod y cyfnod hanesyddol, nid yw'n golygu bod yr ysgolheigion y cyfeirir atynt uchod yn anghywir i awgrymu bod y ddau grŵp yn rhannu tarddiad cyffredin. Cawn fod yn weddol siŵr nad oes neb yn y cyfnod hanesyddol wedi cyfeirio at ei hun fel Indo-Ewropead (gweler isod) ond nid yw hynny ynddo'i hun yn golygu nad yw'r gwaith sy wedi ei wneud ar gysylltu ieithoedd o'r India i Iberia, Iwerddon a Gwlad yr Iâ yn ddilys.

Y Celtiaid Ieithyddol

Adluniwyd yr iaith Gelteg Gyffredin drwy dystiolaeth o'r disgynyddion hyn:

- Brythoneg, a siaredid yn bennaf ym Mhrydain
- Goedeleg, a siaredid yn bennaf yn Iwerddon
- Galeg, a siaredid yn bennaf yng Ngâl, (a thrwy ymfudo, fel Galateg, yn Anatolia)
- Celtibereg, a siaredid yn bennaf yn Iberia
- Leponteg, a siaredid yn bennaf yng ngogledd yr Eidal a de'r Swistir

Mae'n bwysig cofio bod y label Geltaidd yn cyfeirio at gangen o ieithoedd y credir eu bod wedi hanu o darddiad cyffredin, yn hytrach nag at unrhyw iaith unigol o'r cyfnod. Does dim un gair o dystiolaeth o iaith a elwir yn Gelteg, yr hyn sy gennym yw amrywiaeth o ieithoedd hynafol y credir eu bod yn tarddu o'r iaith ddamcaniaethol hon. Dangosir y pwysicaf o'r rhain uchod.

Mae'r ieithoedd unigol hyn yn ddigon real, wedi gadael tystiolaeth o'u bodolaeth mewn arysgrifau, enwau lleoedd, enwau personol, darnau arian ac yn y blaen. Fodd bynnag, o ganlyniad i wahaniaethau a oedd eisoes yn bodoli rhyngddynt, mae'r rhain eu hunain wedi eu hisrannu yn 'Gelteg-P' a 'Chelteg-Q', labeli a ddewiswyd oherwydd bod llawer o eiriau sy'n cynnwys gair gyda sain P neu B yn y naill grŵp â gair sy'n cynnwys sain Q neu C yn y llall.

Mae'r Frythoneg, Leponteg a'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o Âl yn 'Gelteg-P' (fel arfer trinnir Galeg fel iaith Gelteg-P), tra bod Goedeleg, Celtibereg ac ychydig o dystiolaeth o Âl yn 'Gelteg-Q'.


Cred llawer o ieithyddion fod yr ieithoedd 'Celteg-Q', yn enwedig y rhai Goedeleg, yn dangos mwy o nodweddion hynafol na'r lleill, er mai'r Oedeleg, yn ddigon eironig, yw'r diweddaraf ohonynt i gyd i ddarparu prawf o'i bodolaeth, heb dystiolaeth o gwbl cyn tua'r bedwaredd ganrif OG. Beth bynnag, y dystiolaeth hynaf mewn un o'r ieithoedd hyn yw'r arysgrifau yn y Leponteg sy'n dyddio o'r chweched ganrif COG. Beth mae hyn yn ei olygu, wrth gwrs, oddi ar y cyfeiriad hanesyddol cynharaf at y Celtiaid, yw bod iaith Gelteg yr ieithyddion eisoes wedi mynd drwy'r rhwyg P/Q a bod gennym o leiaf ddwy iaith wahanol. Pa iaith bynnag roedd y Celtiaid hanesyddol yn ei siarad, nid Celteg Gyffredin yr ieithyddion mohoni.

Byddai'r awgrym pryfoclyd a wnaed yn 2008 gan Yr Athro John. T. Koch (gweler <http://www.wales.ac.uk/Resources/Documents/Research/ODonnell.pdf>) y dylid trin iaith Tarteseg de-orllewin Sbaen a de Portiwgal fel un sy'n perthyn i'r grŵp Celtaidd, yn gwrthio dyddiad y dystiolaeth gynharaf mewn iaith Geltaidd yn ôl gan hyd at ddwy ganrif, a byddai hefyd yn cyd-fynd yn dwt â lleoliadau hanesyddol cynharaf y Celtiaid. Ni fyddai, fodd bynnag, yn newid y ffaith bod ieithoedd Celteg-P a Chelteg-Q ill dwy mewn bodolaeth ers cyfnod y cyfeiriad cyntaf atynt yn hanesyddol.

Y Celtiaid Ieithyddol: Celteg P a Chelteg Q

Saesneg	Brythoneg (Cymraeg)	Gaeleg (yr Alban)
Four	P edwar	C eithir
Head	P en	C eann
Son	Mab	Mac

Gan fod yr ieithoedd ‘Celtaidd Cyfandirol’ i gyd wedi marw erbyn y chweched ganrif fan bellaf, mae’n well dangos enghreifftiau o’r ieithoedd Brythonaidd a Gaelaidd (uchod). Mae llawer o’r geiriau sydd â P/B yn yr ieithoedd Celteg-P ag C cyfatebol (neu efallai K/Q yn dibynnu ar orgraff yr iaith unigol) yn yr ieithoedd Celteg-Q. Mae’r llythrennau perthnasol wedi eu nodi mewn print trwm yn yr enghreifftiau uchod.



Bu'r cysylltiad rhwng y Frythoneg a'r Oedeleg, er yn hynod ar y pryd, yn rhan o gyfnod o ddarganfod a hawliodd hyd yn oed mwy o gysylltiadau rhwng ieithoedd eraill Ewrop, Asia Leiaf ac is-gyfandir India. Yn 1786, mynnodd Syr William Jones fod cysylltiadau cryfach rhwng Lladin, Groeg a Sansgrit 'nag y gellid bod wedi eu creu drwy ddamwain', a byddai hyn yn y pen draw yn arwain at darddiad damcaniaethol iddynt i gyd, a adwaenir heddiw fel Proto-Indo-Ewropeaidd (neu PIE), a gynrychiolir fel arfer ar ffurf coeden deulu.

Does dim un o'r ieithoedd ar ddwy lefel uchaf y goeden uchod (h.y. nid PIE na Chelteg, Italeg na Germaneg) yn iaith sydd â thystiolaeth uniongyrchol. Daethpwyd o hyd iddynt drwy broses a elwir yn adlunio ieithyddol, hynny yw, defnyddio ieithoedd sydd â thystiolaeth fel sail i ddamcaniaethu am eu hieithoedd cysefin tebygol. Nid nes y cyrhaeddir trydedd lefel y rhestr uchod y deuir o hyd i ieithoedd sy wedi cyflwyno prawf pendant o'u bodolaeth. Y lefel isaf sy'n dangos yr ieithoedd a siaredir o hyd yn y cyfnod modern.

Ceir llawer mwy o ganghennau PIE na'r rhai a welir uchod, gan gynnwys llawer o ieithoedd Dwyrain Ewrop ac is-gyfandir India.

Y Celtiaid Ieithyddol

- ▶ Mae achos cryf dros gredu bod y Frythoneg a'r Oedeleg **yn** rhannu tarddiad cyffredin, fodd bynnag:
- ▶ Bu'r ddau grŵp yn sefyll ar wahân ers y cyfeiriad hanesyddol cyntaf atynt
- ▶ Yn aml, defnyddir y tarddiad cyffredin yn gamamserol, lle nad yw hyn yn digwydd gyda grwpiau eraill
- ▶ Ar un lefel uwch yn y goeden deulu, mae'r ddau grŵp yn rhannu tarddiad cyffredin gyda grwpiau sy'n ymestyn o'r Iwerddon i'r India

Ni ellir amau o ddifri yr achos o blaid dadlau bod y Frythoneg a'r Oedeleg yn hanu o'r un tarddiad, nac ychwaith eu cysylltiadau â Galeg a'r ieithoedd Celtaidd cyfandirol eraill, ac mae llawer o'r dadleuon o gwmpas y Celtiaid heddiw wedi eu seilio, nid ar eu gwreiddiau ieithyddol, ond ar y defnydd gormodol, diangen neu gamamserol o'r term 'Celt' neu 'Celtaidd'.

Gwyddys, er enghraifft, heb rithyn o amheuaeth, bod Ffrangeg a Sbaeneg ill dwy yn tarddu o'r Lladin, iaith y Rhufeiniaid, eto i gyd does dim haneswyr sy'n honni y gorchfygwyd Lloegr gan y Rhufeiniaid yn 1066 neu y gorchfygwyd De America gan goncwestadoriaid Rhufeinig. Ar y llaw arall, fodd bynnag, ceir ysgolheigion sy'n trafod hanes yr oesoedd canol cynnar na fyddent byth yn uno'r Eingl-Saesn a'r Llychlynwyr gyda'i gilydd o dan un enw ar y cyd megis 'Germaniaid' ond sydd yn aml yn cyfeirio at y Brythoniaid a'r Gaeliaid gyda'i gilydd fel Celtiaid, mewn cyfnod pan oedd yn amlwg bod y rhain o leiaf yr un mor wahanol â'r pobloedd Germanaidd hyn.

Y Celtiaid Archeolegol


- ▶ Dau ddiwylliant archeolegol sy'n gysylltiedig â'r Celtiaid
- ▶ Daethpwyd o hyd i'r ddau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg
- ▶ Hallstatt Gorllewinol cyfnod D, yn dyddio o'r chweched a'r bumed ganrifoedd COG
- ▶ La Tène, o'r bumed i'r ganrif gyntaf COG
- ▶ Mae gwreiddiau'r ddau yn yr Ewrop dymherus i'r gogledd o'r Alpau

Yn draddodiadol, lleolir y Celtiaid archeolegol, yn wahanol i'r rhai hanesyddol ac ieithyddol, yn yr Ewrop dymherus i'r gogledd o'r Alpau, mewn tiroedd a fyddai heddiw yn y Swistir, Awstria, Bohemia, rhannau o'r Almaen a rhannau o ogledd Ffrainc; ardal y cyfeirir ati yn aml bellach fel 'mamwlad y Celtiaid'.

Mae archeolegwyr wedi cysylltu dau gyfnod â'r Celtiaid, yn gyntaf cyfnod Hallstatt, yn enwedig Hallstatt D1 a D2-3 sy'n dyddio o c.600 – 450COG, a ddilynwyd gan gyfnod a gysylltir hyd yn oed yn fwy agos atynt, sef cyfnod La Tène, yn ymestyn o'r bumed ganrif COG hyd at goncwest y Rhufeiniaid. Daethpwyd o hyd i'r ddau safle, h.y. Hallstatt a La Tène, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Y Celtiaid Archeolegol

► 'Mamwlad' Hallstatt: (delwedd drwy gwrteisi Dbachmann)



Enwir Hallstatt ar ôl safle anghysbell yn Salzkammergut Awstria, i'r de-orllewin o Salzburg, a gynhwysodd fynwent anferth o dros 1000 o gladdfeydd. Cyfeirir at y diwylliant materol a gysylltir ag ef fel arfer fel yr un sy'n nodi dechrau Oes yr Haearn yn Ewrop. Rhennir ardal Hallstatt yn ddaearyddol fel arfer yn barth dwyreiniol sy'n cynnwys rhannau o Awstria, Morafia, Slofacia, Hwngari, Slofenia a Croatia, a pharth gorllewinol sy'n cynnwys rhannu eraill o Awstria, y Swistir, Bohemia, yr Almaen, a dwyrain Ffrainc. Saif Hallstatt ei hun ar y ffin rhwng y ddau. Honnir bod y parth gorllewinol yn Geltaidd. Mae parth gorllewinol Hallstatt yn enwog am ei gaerau, megis yr Heuneburg, sy'n edrych dros y Donaw, a'i feddau tywysogaidd megis rhai Hochdorf, nepell o dref cyfoes Stuttgart, a Vix, ym Mont Lassois, sy'n edrych dros Afon Seine. Credir bod y beddau yn feddau aelodau uchel-radd y gymdeithas, a gysylltir yn aml â chaer gerllaw. Byddai'r tywysog neu'r dywysoges yn cael eu claddu wrth ochr nwyddau claddu, gan gynnwys, yn fwyaf nodweddiadol, wagon â phedair olwyn, a gynigiwyd, siŵr o fod, ar gyfer taith yr ymadawedig i'r byd arall. Mae'r darganfyddiadau yn y safleoedd hyn yn dyddio o'r bumed a'r chweched ganrif COG, ac yn dangos tystiolaeth o gysylltiadau â'r byd Canoldirol, gyda'r Etrwsgiaid ynghyd â'r Groegiaid. Gan fod y safleoedd hyn yn cyfoesi â'r cyfeiriadau hanesyddol cynharaf am y Celtiaid a wnaed gan y Groegiaid (gweler y Celtiaid Hanesyddol uchod), byddai'n deg i ofyn pam nad oes safleoedd fel y rhain y tu ôl i Marseille, neu y tu hwnt i bileri Hercules, neu yn y rhan fwyaf o Iberia hyd at Cadiz.

Efallai bod datganiad Herodotus bod y Donaw â'i ffynhonnell yng ngwlad y Celtiaid yn arwyddocaol yma, gan y byddai angen tystiolaeth ychwanegol i honni bod Hallstatt yn bendant yn 'famwlad' y Celtiaid os yw Herodotus wedi lleoli ffynhonnell y Donaw, yn anghywir, yn Iberia. Ceir tystiolaeth bod y Celtiaid yn bresennol mor bell â hyn i'r dwyrain, fodd bynnag. Gellir gweld enw llwyth y Boii o hyd, er enghraifft, yn enw lle Bohemia, a chred rhai fod enw'r fforest Hercyniaidd hynafol yn Broto-Celteg. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng bod yn *gartref i (rai) Celtiaid* ac yn *famwlad y Celtiaid*, o ble mae'r holl Geltaid eraill yn hanu, ac efallai y cafwyd diwylliannu materol gwahanol iawn rhwng y gwahanol ardaloedd ble y siaredid ieithoedd Celtaidd.

Y Celtiaid Archeolegol

► 'Mamwlad' La Tène: (delwedd drwy gwrteisi wiglaf)




Enwir La Tène ar ôl safle yn Llyn Neuchatel ble daethpwyd o hyd i dros 2500 o wrthrychau, y rhan fwyaf yn fetel. Saif yr ardal sydd wrth galon y diwylliant La Tène, er gwaethaf lleoliad y safle ei hun, yn uniongyrchol uwchben y parth Hallstatt gorllewinol, o Champagne i Fohemia. Mae Prydain yn dechrau gweld tystiolaeth o ddylanwad La Tène yn y bedwaredd neu'r drydedd ganrif COG, ar ôl cyfandir Ewrop. Patrymau nodweddiadol y dull La Tène yw'r rhai y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn eu hadnabod fel arddulliau celfyddydol Celtaidd heddiw.

Yn ddiddorol, mae'r ddwy ardal Geltaidd a adwaenir fel rhai sy'n sylweddol ddiffygiol o ran deunyddiau La Tène yw Iberia ac Iwerddon, y cynhyrchodd y ddwy ieithoedd 'Celteg-Q'. Mae'n absennol hefyd mewn rhan fawr o dde Gâl.

Daw hyn â ni at gwestiwn diddorol iawn parthed a oes modd cydweddu grwpiau ethnig â gweddillion archeolegol yn y lle cyntaf. Os nad oes, wedyn does dim cyfiawnhad dros labelu deunyddiau fel rhai Celtaidd beth bynnag, ond os oes, rhaid bod gennym ddau grŵp felly, un gydag archeoleg La Tène, a'r llall hebddi.

Y Celtiaid Archeolegol: Enghraifft o La Tène

► Tarian Battersea: (delwedd a nodiadau drwy gwrteisi BM Images)



Oes yr Haearn, 350-50 BC. Daethpwyd o hyd iddi yn Afon Tafwys wrth Bont Battersea.

Ni luniwyd tarian Battersea ar gyfer rhyfela difrifol. Mae'n rhy fyr i'ch amddiffyn yn gall. Byddai'r llen fetel denau a'r addurnwaith cymhleth yn cael eu dinistrio'n hawdd pe bai'r darian yn cael ei tharo gan gleddyf neu waywffon. Yn lle hyn mae'n debyg iddi gael ei gwneud er mwyn ei harddangos yn lliwgar. Byddai'r efydd gloyw a'r gwydr coch fflachiol wedi creu golygfa wych. Yn y diwedd fe gafodd ei thaflu neu ei rhoi i Afon Tafwys, lle cynigiwyd llawer o arfau fel aberthau yn Oes yr Efydd ac Oes yr Haearn.

Ni ddeuir o hyd i darianau o Oes yr Haearn yn aml iawn. Mae'r tarianau hynny a dynnwyd o gladdfeydd Oes yr Haearn wedi eu gwneud o bren, weithiau gyda chlawr lledr. Ychydig iawn o ddarnau metel sydd ganddynt. Nid yw tarian Battersea mewn gwirionedd yn darian gyflawn, dim ond yr arwyneb sydd, sef clawr metel a gysylltwyd ar flaen tarian bren. Fe'i gwneir o ddarnau gwahanol o ddalennau efydd, wedi eu dal at ei gilydd gyda rhybedi efydd ac wedi eu hamgylchynu mewn sribyn rhwymol. Mae'r rhybedi i gyd wedi eu cuddio gan ormylon rhwng yr elfennau gwahanol lle cysylltwyd y paneli a'r cylchigau â'r cefn organig.

Mae'r addurnwaith i gyd wedi ei ganoli yn y tri chylchig. Mae bwlyn gyda chromen uchel yng nghanol y cylchig canolog uwchben lle bu'r carn oddi tano. Gwneir dull addurnwaith La Tène drwy ddefnyddio techneg repoussé, a amlygir gydag ysgythru a dotwaith. Amlygir y cynllun cyffredinol gyda ffrâm o saith ar hugain o stydiau enamel coch (gwydr coch tywyll) o bedwar maint gwahanol, mae'r un mwyaf yng nghanol y bwlyn.

Y Celtiaid Archeolegol

- Map o ddosbarthiad meini melin cwch gwenyn yn Iwerddon, o: Raftery, B. 1994, *Pagan Celtic Ireland*, London, Thames & Hudson



Mae peth tystiolaeth o La Tène yn Iwerddon, ond fe gyrhaeddodd yn hwyr, yn ymestyn yn yr ail ganrif a'r ganrif gyntaf COG, ac mae'n bur debyg y daeth o ogledd Prydain. Mewn gwirionedd mae hollt drawiadol yn Iwerddon rhwng y gogledd a'r de, gyda deunyddiau La Tène yn amlwg yn y gogledd ac yn absennol o'r de. Does dim byd sy'n dangos hyn yn well na dosbarthiad meini melin cwch gwenyn y gellir ei weld uchod.

Pa gasgliadau y dylid eu tynnu o ddosbarthiadau fel y rhain? – bod hanner gogleddol yr ynys yn gartref i grŵp ethnig gwahanol i'r de, neu fod y bobl yn hanner gogleddol Iwerddon yn siarad iaith wahanol i'r rhai yn y de, neu efallai bod dim cysylltiad uniongyrchol rhwng sut mae ieithoedd a diwylliannau materol yn ymledu, ac nad oes modd gwybod pa iaith roedd pobl yn ei siarad drwy edrych ar y dechnoleg a ddefnyddiwyd ganddynt?